Peidiwch â chynhyrfu: mae help ar gael

BYDD EIN HAWGRYMIADAU HWYLUS YN EICH ARWAIN DRWY'R TRAFFERTHION MUNUD OLAF

Rydym wedi sefydlu adnoddau ychwanegol i ysgafnhau'ch baich y Nadolig hwn

- **Tudalen we benodol** Gydag awgrymiadau ar labelu a chyfeirio, pacedu a gwasanaethau'r Nadolig
- **Canolfannau didoli pacedi ychwanegol** i brosesu'r holl archebion ychwanegol
- **18,000 pâr o ddwylo ychwanegol** wedi eu hurio i gadw'ch post ar ffordd
- **Mwy o faniau**, awyrenau a threnau'n barod i ddelio â dosbarthiadau'r tymor
- **Trefniadau casglu** Bydd casgliadau rheolaidd fel arfer ac eithrio ar wyliau'r banc; 26, 27 Rhagyfr a 2 Ionawr 2012*. I drefnu casgliad unigol ffoniwch ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid. Os ydych yn rhagddidoli'ch post byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân i esbonio'r trefniadau casglu dros y Nadolig

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/greetings

Mae'r Post Brenhinol yma i chi gydol y flwyddyn hefyd

- **Diweddariadau gwasanaeth drwy ebost** i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal. Mae'r gwasanaeth di-dâl, penodol hwn yn rhoi gwybod i chi am doriadau gwasanaeth wrth iddynt ddigwydd – ac yn dweud wrthych chi beth rydym ni'n ei wneud i ofalu na fydd eich gwasanaeth yn dioddef. ***Ewch i www.royalmail.com/serviceupdates***
- **Mae'n timau gwasanaeth cwsmeriaid busnes** ar gael i gymryd eich galwadau rhwng 8yb-6yh, Llun-Gwener. Gwelwch y rhif isod
- **Gall y tîm @RoyalMail** ateb eich ymholiadau ar Twitter a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi os bo problem fel tywydd gwael yn effeithio ar wasanaethau

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/businesshelp
Gwasanaeth cwsmeriaid busnes: 08457 950 950

Mae cwsmer ar y lein ac yn anfodlon iawn. Dyma sut i ofalu na wnewch ddrama o argyfwng

- **Cyfrifwch i ddeg** Os bydd cwsmeriaid yn gweiddi lawr y lein, cymerwch ennyd i roi'ch hun yn eu sgidiau hwy. Ceisiwch gyrraedd gwaelod y broblem, peidiwch ag addo gormod ond gofalwch fod eich tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn ymateb yn gyflym a chywir. Mae diweddariadau gwefan, ebyst neu negeseuon Twitter yn dystiolaeth weladwy eich bod yn cymryd yr ymholiadau o ddifrif
- **Gweithredwch yn gyflym** Os ydy'ch stoc wedi darfod, cynigiwch rywbeth arall. Gall cyfryngau cymdeithasol neu storïau am bobl adnabyddus greu galw sydyn. Os ydy'ch cyflenwad o eitem mae pobl eu heisiau wedi darfod, cynigiwch rodd arall am ddisgownt neu arian i ffwrdd ar yr eitem wreiddiol am ei ddosbarthu ar ôl y Nadolig. Mae ateb creadigol yn well na dweud 'Does dim ar ôl'

Darlun: Laurence Whiteley *Gan gynnwys 3 Ionawr yn yr Alban

CIP AR Y DYDDIADAU POSTIO OLAF

5 Rhag
Post Awyr i Affrica, Caribî, De & Canolbarth America, Dwyrain Canol, Asia, Dwyrain Pell (gan gynnwys Siapán), Seland Newydd ac Awstralia

9 Rhag
Post Awyr i Ddwyrain Ewrop, UDA a Chanada

12 Rhag
Post Awyr i Orllewin Ewrop

14 Rhag
Parseli safonol

17 Rhag
Ail Ddosbarth a Recorded Signed For, Packetpost a Packetsort

19 Rhag
RM Tracked

20 Rhag
Dosbarth Cyntaf a Recorded Signed For, Packetpost, RM Tracked High Volume a Packetsort

21 Rhag
RM Tracked Next Day

22 Rhag
Special Delivery

23 Rhag
Special Delivery – Saturday Guaranteed

Oes angen cymorth â *lapio* & *phacio*?

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/greetings